

Polisi Cyflog Athrawon Enghreifftiol



Polisi Addysg - Cyflog Athrawon Enghreifftiol 2021/22

Cymeradwywyd gan

Dyddiad Cymeradwyo

Dyddiad Rhoi ar Waith 01/09/21

Perchennog SV

Dyddiad adolygu 01/09/22

Polisi Cyflog Athrawon Enghreifftiol

Rheoli Fersiynau

Mae'r ddogfen hon yn amodol ar adolygiad rheolaidd oherwydd newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi. Gellir dod o hyd i'r fersiynau diweddaraf o'n cyhoeddiadau ar ein gwefan. Cyn cysylltu â ni ynghylch cynnwys y ddogfen hon, argymhellir i chi gyfeirio at y fersiwn diweddaraf ar y wefan a'r canllawiau perthnasol.

Fersiwn	Dyddiad Cymeradwyo	Cymeradwywyd gan	Nodiadau / newidiadau
1.0		Sophie Vaughan	Diwygiadau symiau cyflog yn unol â'r cynnydd costau byw a gytunwyd yn genedlaethol Newidiadau i ddyddiadau blwyddyn academaidd 2021 -2022

Polisi Cyflog Athrawon Enghreifftiol

Cynnwys

Rheoli Fersiynau	2
Cynnwys	3
SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU	5
Cylch gwaith y Pwyllgor Cyflogau:	5
Mae'r Pwyllgor Cyflogau yn gyfrifol am:	5
Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am:	5
Monitro ac adolygu'r polisi Mae'r Pwyllgor Cyflogau yn gyfrifol am:	5
Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am:	5
Gweithredu'r polisi	5
Mae'r Pennaeth yn gyfrifol am:	5
Mae Pwyllgor Apeliadau'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am:	6
Dehongli a Phenderfyniadau Cyflog ar gyfer mis Medi, 2021	6
Penderfyniadau Cyflog ar gyfer mis Medi, 2021	6
Rhagarweiniad	7
Adolygiadau Tâl	8
Penderfyniadau Cyflog Sylfaenol wrth Benodi	8
Athrawon mewn Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru a Lloegr	8
Swyddi Addysgu Ymarferwyr Arweiniol	10
Athrawon heb gymhwyso	11
Swyddi athrawon arweiniol (penaethiaid, dirprwyon a phenaethiaid cynorthwyol)	11
Grwpiau Penaethiaid ac Ystodau Cyflog	12
Datblygiad Cyflog ar gyfer Grŵp Arweinyddiaeth	16
Rheoli Perfformiad	17
Athrawon Dosbarth ar y Brif Raddfa Gyflog	17
Athrawon Dosbarth ar yr Uwch Raddfa Gyflog	18
Athrawon Ymarferwyr Arweiniol	18
Athrawon Dosbarth heb Gymhwyso	18
Athrawon Byr Rybudd / Cyflenwi a benodir gan Gyngor Sir Ddinbych	18
Symud i'r Uwch Raddfa Gyflog	19
Ceisiadau a Thystiolaeth	19
Yr Asesiad	19
Prosesau a Gweithdrefnau	20
Athrawon Rhan Amser	20
Athrawon Byr Rybudd / Cyflenwi	21
Cynnydd Cyflog oherwydd Newidiadau i'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol	21
Lwfansau a Thaliadau yn ôl disgresiwn	21
Taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu	21
Lwfansau Gweithredu Dros Dro	23
Taliadau eraill	23
Cymhellion a buddion recriwtio a chadw	24

Polisi Cyflog Athrawon Enghreifftiol

Dyletswyddau preswyl	24
Honoraria	24
Diogelu	24
Apeliadau	24
Monitro Effaith y Polisi	25

Polisi Cyflog Athrawon Enghreifftiol

SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU

Bydd aelodaeth y Pwyllgor Cyflogau ac Apeliadau yn cynnwys o leiaf tri llywodraethwr. Bydd pob llywodraethwr yn gymwys i fod yn aelod o'r Pwyllgor Cyflogau. Fodd bynnag, ni all staff a gyflogir yn yr ysgol gymryd rhan yn y cyfarfod lle mae Adolygiad Cyflogau neu Berfformiad unrhyw Berson a gyflogir yn yr ysgol yn cael ei drafod, ac eithrio lle mae unrhyw drafodaeth lle mae eu buddiannau yn ddim mwy na buddiannau cyffredinol gweithwyr yr ysgol.

Cylch gwaith y Pwyllgor Cyflogau:

Sefydlu'r polisi

Mae'r Pwyllgor Cyflogau yn gyfrifol am:

Sefydlu'r polisi mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth, staff a chynrychiolwyr undebau llafur, a'i gyflwyno i'r Corff Llywodraethu i'w gymeradwyo

Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am:

Cymeradwyo'r polisi'n ffurfiol

Monitro ac adolygu'r polisi Mae'r Pwyllgor Cyflogau yn gyfrifol am:

adolygu'r polisi yn flynyddol, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth, staff a chynrychiolwyr undebau llafur; a'i gyflwyno i'r Corff Llywodraethu i'w gymeradwyo.

Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am:

ystyried adroddiad blynyddol, gan gynnwys gwybodaeth ystadegol, ar benderfyniadau a wnaed yn unol â thelerau'r polisi;

Gweithredu'r polisi

Mae'r Pennaeth yn gyfrifol am:

sicrhau bod argymhellion cyflog ar gyfer y dirprwy bennaeth(iaid) a'r pennaeth(iaid) cynorthwyol,

Polisi Cyflog Athrawon Enghreifftiol

athrawon dosbarth a staff cefnogi yn cael eu gwneud a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Cyflogau yn unol â thelerau'r polisi;

cynghori'r Pwyllgor Cyflogau ar ei benderfyniadau; a sicrhau bod staff yn cael eu hysbysu am ganlyniad y penderfyniad ac am yr hawl i apelio.

Mae Pwyllgor Apeliadau'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am:

wneud penderfyniadau ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Pwyllgor Cyflogau yn unol â darpariaethau datrys anghydfod cyfraith cyflogaeth.

Dehongli a Phenderfyniadau Cyflog ar gyfer mis Medi, 2021

Bydd y raddfa gyflog yn y polisi enghreifftiol hwn yn cael ei diwygio i adlewyrchu canlyniadau proses y Corff Adolygu Athrawon Ysgol o safbwynt cynnydd cyflog Medi 2021.

Mae'r polisi yn berthnasol i staff addysgu mewn ysgolion yng Nghyngor Sir Ddinbych sy'n dod o dan reolaeth y Corff Llywodraethu perthnasol.

Er dibenion y cytundeb hwn, bydd unrhyw gyfrif rheoli eraill y gweithwyr hynny sy'n amodol ar delerau ac amodau cyflogaeth athrawon yn cael eu trin fel eu bod yn gorff llywodraethu ac felly bydd disgwyl iddynt gynorthwyo i ganfod staff allai gollu eu swyddi. Bydd y dehongliad terfynol fodd bynnag, yn cael ei wneud gan Gyngor Sir Ddinbych, sydd fel arfer yn gweithredu ar gyngor y Corff Rheoli.

Penderfyniadau Cyflog ar gyfer mis Medi, 2021

Felly bydd ceisiadau am symud ymlaen i'r Uwch Raddfa Gyflog ar gyfer mis Medi 2021 (h.y. Rownd 21), symud ymlaen i'r Prif Raddfeydd a'r Uwch Raddfeydd Cyflog a phenderfyniadau cyflog ar gyfer staff newydd sy'n derbyn swyddi cyn mis Medi 2021, yn cael eu cyflawni yn unol â darpariaethau Dogfen Cyflogau ac Amodau Athrawon Ysgol 2021.

Sicrhewch eich bod yn cwblhau unrhyw adrannau a amlygwyd yn Goch yn y ddogfen hon pan fyddwch yn ei mabwysiadu.

Polisi Cyflog Enghreifftiol ar gyfer Penderfynu ar Gyflog Athrawon

Polisi Cyflog Athrawon Enghreifftiol

Corff Llywodraethu Ysgol _____

Mabwysiadwyd y polisi hwn ar _____

Rhagarweiniad

Mae'r polisi hwn yn nodi'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar gyflog athrawon. Mae wedi ei ddatblygu i gydymffurfio gyda deddfwriaeth gyfredol a gofynion Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol ac mae wedi bod yn destun ymgynghoriad â'r undebau llafur cydnabyddedig. Bydd copi o'r polisi hwn yn cael ei anfon at yr holl staff a bydd yr ysgol yn sicrhau bod copi o'r dogfennau perthnasol ar gyflog ac amodau ar gael i'r holl staff.

Wrth fabwysiadu'r polisi cyflog hwn, y nod yw:

- sicrhau ansawdd dysgu ac addysgu yn yr ysgol;
- cefnogi recriwtio a chadw athrawon a gwobrwyo athrawon fel y bo'n briodol; a
- sicrhau atebolrwydd, tryloywder, gwrthrychedd a chyfle cyfartal

Bydd y Corff Llywodraethu yn cynnal hawliau cyflog blaenorol athrawon yn unol ag egwyddor cludadwyedd cyflog ac yn sicrhau nad yw athrawon yn dioddef unrhyw golled ariannol na phroffesiynol o ganlyniad i'r newidiadau i strwythur cyflog athrawon o fis Medi 2021 ymlaen.

Gwneir penderfyniadau cyflog yn ysgol hon gan y Corff Llywodraethu sydd wedi dirprwyo cyfrifoldebau a phwerau gwneud penderfyniadau penodol i'r Pwyllgor Cyflogau. Y Pwyllgor Cyflogau fydd yn gyfrifol am sefydlu ac adolygu'r polisi cyflogau, yn amodol ar gymeradwyaeth y Corff Llywodraethu, a bydd ganddo awdurdod llawn i wneud penderfyniadau am gyflogau ar ran y Corff Llywodraethu yn unol â'r polisi hwn. Y pennaeth fydd yn gyfrifol am gynghori'r Pwyllgor Cyflogau ar gyfer ei benderfyniadau.

Bydd y Corff Llywodraethu yn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael swydd-ddisgrifiad yn unol â strwythur staffio penodedig yr ysgol. Bydd swydd-ddisgrifiadau yn nodi meysydd allweddol o gyfrifoldeb. Ac eithrio mewn achos o ailstrwythuro staff, gellir adolygu swydd-ddisgrifiad drwy ymgynghoriad, a dim ond drwy gytundeb y gellir ei newid.

Polisi Cyflog Athrawon Enghreifftiol

Adolygiadau Tâl

Bydd y Corff Llywodraethu yn sicrhau bod cyflog pob athro yn cael ei adolygu yn flynyddol gan gynnwys y rheiny mewn swydd Arweinyddiaeth o 1 Medi, a byddant yn sicrhau bod pob athro yn cael eu hysbysu o'r canlyniad heb fod yn hwyrach na 31 Hydref bob blwyddyn, a bydd pob athro yn cael datganiad ysgrifenedig yn nodi eu cyflog ac unrhyw fuddiannau ariannol y mae ganddynt hawl iddynt.

Gellir cynnal adolygiadau ar adegau eraill o'r flwyddyn i adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau neu swydd-ddisgrifiad sy'n arwain at newid yn y modd y cyfrifir cyflog unigolyn. Rhoddir datganiad ysgrifenedig ar ôl unrhyw adolygiad a ble bo'n berthnasol bydd yn nodi'r wybodaeth oedd yn sail i'r penderfyniad.

Pan fydd penderfyniad cyflog yn arwain neu'n gallu arwain at ddechrau cyfnod o ddiogelu, bydd y Corff Llywodraethu yn rhoi'r rhybudd angenrheidiol cyn gynted â phosib a dim hwyrach na mis ar ôl dyddiad y penderfyniad.

Gan gynnwys cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb h.y. Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996, Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999, Deddf Cyflogaeth 2002, Rheoliadau Gweithwyr Rhan Amser (Atal Triniaeth Lai Ffafirol) 2000, Rheoliadau Gweithwyr Cyfnod Penodol (Atal Triniaeth Lai Ffafirol) 2002 a Deddf Cydraddoldeb 2010/2012.

Penderfyniadau Cyflog Sylfaenol wrth Benodi

Bydd y Corff Llywodraethu yn penderfynu ar y raddfa gyflog ar gyfer swydd cyn ei hysbysebu. Wrth benodi, bydd yn penderfynu ar y cyflog cychwynnol o fewn yr ystod honno sydd i'w chynnig i'r ymgeisydd llwyddiannus.

Wrth wneud penderfyniadau o'r fath, bydd y Corff Llywodraethu yn gweithredu'r polisi canlynol:

Athrawon mewn Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru a Lloegr

Isod mae'r graddfeydd cyfredol ar gyfer ysgolion a gynhelir yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys ymarferydd arweiniol a lwfansau CAD a AAA, a lefelau cyflog a argymhellir ar gyfer 2021/22

Polisi Cyflog Athrawon Enghreifftiol

Prif Raddfa Gyflog Athrawon		Lwfansau CAD		Lwfansau AAA	
		3 Isafswm	£581	AAA 1	£2,310
PRG2	£27,491	3 Uchafswm	£2,833	AAA 2	£4,558
PRG3	£29,699	2A	£2,924		
PRG4	£31,987	2B	£4,868		
PRG5	£34,506	2C	£7,140		
PRG6	£37,974	1A	£8,437		
Uwch Raddfa Gyflog		1B	£10,382		
		1C	£12,326		
URG 1	£39,368	1D	£14,276		
URG 2	£40,827				
URG 3	£42,333				

Mae'r Corff Llywodraethu yn nodi na fydd yn cyfyngu ystod cyflog a hysbysebwyd na chyflog cychwynnol a phosibiliadau datblygiad cyflog sydd ar gael ar gyfer swyddi athrawon dosbarth, heblaw am isafswm y Brif Raddfa Gyflog ac uchafswm yr Uwch Raddfa Gyflog.

Bydd y Corff Llywodraethu yn cefnogi'r egwyddor o gludadwyedd cyflog wrth wneud penderfyniadau cyflog ar gyfer yr holl benodiadau newydd fel a ganlyn:

Wrth benderfynu ar y cyflog cychwynnol ar gyfer athrawon dosbarth yn cychwyn eu swydd gyntaf fel athrawon dosbarth cymwysedig, bydd y Corff Llywodraethu yn talu'r athrawon ar y Brif Raddfa Gyflog ac yn dyrannu pwyntiau graddfa gyflog, fel isafswm, ar y sail canlynol:

- Un pwynt am bob blwyddyn o wasanaeth fel athrawon cymwysedig mewn ysgol a gynhelir, Academi, Coleg Technoleg Dinas, neu ysgol annibynnol;
- Un pwynt am bob blwyddyn o wasanaeth fel athrawon cymwysedig mewn addysg uwch neu addysg bellach gan gynnwys colegau chweched dosbarth, neu mewn gwledydd y tu allan i Gymru a Lloegr mewn ysgol yn y sector ysgolion a gynhelir y wlad honno;

Polisi Cyflog Athrawon Enghreifftiol

- Un pwynt am bob tair blynedd o brofiad ar wahân i ddysgu, wedi ei dreulio mewn maes perthnasol, gan gynnwys hyfforddiant diwydiannol neu fasnachol, amser yn gweithio mewn swydd sy'n berthnasol i waith yr athrawon mewn ysgol, a phrofiad gyda phlant / pobl ifanc yn erbyn meini prawf y cyfeirir atynt yn Nogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol.

Bydd y Corff Llywodraethu hefyd yn ystyried dyrannu pwyntiau graddfa ychwanegol ar y sail uchod i athrawon eraill a benodwyd ar y Brif Raddfa neu'r Raddfa Uwch.

Mae'n rhaid i'r corff llywodraethu weithredu egwyddor cludadwyedd cyflogau mewn trefniadau i gwmpasu pob achos o athrawon yn symud rhwng swyddi addysgu yng Nghymru (perthnasol i swyddi ar y Brif Raddfa Gyflog neu'r Uwch Raddfa Gyflog) yn unol ag egwyddorion gorfodol cludadwyedd cyflogau ym mharagraff 12.

Bydd y Corff Llywodraethu hefyd yn talu athrawon dosbarth sydd yn "athrawon ôl-drothwy" ar gyfer ein hysgol fel y diffinnir yn Nogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol ar yr Uwch Raddfa Gyflog. Pwrpas y ddarpariaeth hon yw sicrhau cyflog teg i'r holl athrawon a gyflogir yn yr Ysgol.

Swyddi Addysgu Ymarferwyr Arweiniol

Mae'r Corff Llywodraethu wedi sefydlu'r raddfa / graddfeydd cyflog canlynol ar gyfer swyddi athrawon Ymarferwyr Arweiniol a delir ar Raddfa Gyflog Ymarferwyr Arweiniol:

Bydd y swyddi hyn wedi'u cynnwys yn y strwythur staffio ar ddisgresiwn y Corff Llywodraethu.

Gwerthoedd cyflog isafswm ac uchafswm fel yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2021

1 £43,145

2

3

4

5 £65,590

Polisi Cyflog Athrawon Enghreifftiol

Gallai rhai swyddi o'r math hyn gael eu sefydlu ar gyfer athrawon sydd â'r prif bwrpas o fodelu ac arwain gwelliant mewn sgiliau addysgu, lle mae'r dyletswyddau hynny yn syrthio y tu allan i'r meini prawf ar gyfer strwythur cyflog CAD.

Wrth benderfynu ar raddfeydd cyflog ar gyfer swyddi o'r fath, bydd y Corff Llywodraethu yn gwneud hyn drwy gyfeirio at bwysau cyfrifoldebau'r swydd a gan ystyried bod angen sicrhau cydraddoldeb cyflog lle mae swyddi yn gyffelyb o ran llwyth gwaith a gwahaniaethau cyflog teg rhwng swyddi sydd â gwahanol lefelau o gyfrifoldebau.

Polisi'r Corff Llywodraethu yw penodi unrhyw athrawon Ymarferwyr Arweiniol newydd ar waelod y raddfa gyflog.

Athrawon heb gymhwyso

Mae'r Corff Llywodraethu wedi sefydlu'r raddfa gyflog ganlynol ar gyfer athrawon heb gymhwyso a gyflogir mewn swyddi athrawon dosbarth.

1	£18,487
2	£20,637
3	£22,786
4	£24,936
5	£27,088
6	£29,238

Swyddi athrawon arweiniol (penaethiaid, dirprwyon a phenaethiaid cynorthwyol)

Bydd graddfeydd cyflog ar gyfer penaethiaid, dirprwy benaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol yn cael eu penderfynu yn unol â'r meini prawf a nodwyd yn Nogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol gan sicrhau bod perthnasedd cyflog teg yn y grŵp ysgol a ddarperir gan y corff perthnasol.

Polisi Cyflog Athrawon Enghreifftiol

Grwpiau Penaethiaid ac Ystodau Cyflog

Grŵp	Ystod pwyntiau colofn	Ystod Cyflog Blynnyddol ar gyfer Cymru
1	L6 - L18*	£48,571- £64,620
2	L8 - L21*	£51,029 – £69,544
3	L11 – L24*	£55,038 - £74,847
4	L14 – L27*	£59,153 - £80,553
5	L18 – L31*	£65,266 - £88,841
6	L21 – L35*	£70,240 - £97,996
7	L24 - L39*	£75,596 - £108,035
8	L28 - L43*	£83,376 - £119,248

Mae'r Corff Llywodraethu wedi sefydlu'r ystodau ysgolion unigol a'r graddfeydd cyflog canlynol ar gyfer penaethiaid, dirprwy bennaeth(iaid) a phennaeth(iaid) cynorthwyol.

Graddfa gyflog penaethiaid:

(Nodwch ystod bwyntiau'r ysgol ar gyfer penaethiaid)

Graddfa gyflog dirprwy bennaethiaid

(Nodwch ystod bwyntiau'r ysgol ar gyfer dirprwy bennaethiaid)

Graddfa gyflog penaethiaid cynorthwyol

(Nodwch ystod bwyntiau'r ysgol ar gyfer penaethiaid cynorthwyol)

Bydd y corff llywodraethu yn sicrhau bod y broses ar gyfer penderfynu cyflog y grŵp arweinyddiaeth yn deg a thryloyw. Rhaid cofnodi pob penderfyniad ar gyflog arweinyddiaeth yn eglur at ddibenion archwilio. Argymhellir bod y Corff Llywodraethu yn dilyn y dull gweithredu tri cham a nodir yn Atodiad 1.

Polisi Cyflog Athrawon Enghreifftiol

Colofn Gyflog ar gyfer Grŵp Arweinyddiaeth 2021

<i>Pwynt Colofn</i>	<i>Cyflog Blynyddol ar gyfer Cymru</i>	<i>Pwynt Colofn</i>	<i>Cyflog Blynyddol ar gyfer Cymru</i>
L1	£42,934	L24*	£74,847
L2	£44,008	L24	£75,596
L3	£45,107	L25	£77,474
L4	£46,230	L26	£79,391
L5	£47,381	L27*	£80,553
L6	£48,571	L27	£81,358
L7	£49,877	L28	£83,376
L8	£51,029	L29	£85,441
L9	£52,302	L30	£87,568
L10	£53,646	L31*	£88,841
L11	£55,038	L31	£89,731
L12	£56,307	L32	£91,961
L13	£57,714	L33	£94,245

Polisi Cyflog Athrawon Enghreifftiol

<i>Pwynt Colofn</i>	<i>Cyflog Blynyddol ar gyfer Cymru</i>	<i>Pwynt Colofn</i>	<i>Cyflog Blynyddol ar gyfer Cymru</i>
L14	£59,153	L34	£96,575
L15	£60,624	L35*	£97,996
L16	£62,237	L35	£98,976
L17	£63,665	L36	£101,426
L18*	£64,620	L37	£103,947
L18	£65,266	L38	£106,520
L19	£66,886	L39*	£108,035
L20	£68,543	L39	£109,116
L21*	£69,544	L40	£111,838
L21	£70,240	L41	£114,632
L22	£71,984	L42	£117,504
L23	£73,766	L43	£119,248

*** Y pwyntiau hyn a phwynt 43 yw'r uchafswm cyflogau ar gyfer wyth ystod y grŵp penaethiaid**

Dylai'r Ystod Ysgol Unigol gynnwys saith pwynt olynol o fewn yr ystod a nodir fel yr Ystod Grŵp Ysgol i Benaethiaid, ac ni ddylent fod yn fwy nag uchafswm yr ystod grŵp penaethiaid, gan sicrhau bod cyflog

Polisi Cyflog Athrawon Enghreifftiol

Pwynt Arweinyddiaeth * yn cael ei ddefnyddio fel uchafswm y grŵp penaethiaid. Yn achos Dirprwy Benaethiaid a Phenaethiaid Cynorthwyol dylai'r Ystod Ysgol Unigol gynnwys pump pwynt colofn olynol.

Wrth benderfynu ar yr ystod gyflog arweinyddiaeth, rhaid i'r corff llywodraethu ystyried holl gyfrifoldebau parhaol y rôl, unrhyw heriau penodol i'r rôl a'r holl ystyriaethau perthnasol eraill (fel anawsterau recriwtio)

Rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau bod digon o sgôp o fewn yr ystod i ganiatáu datblygiad dros amser.

Fel arfer, ni ddylai ystod gyflog ar gyfer pennaeth fod yn uwch nag uchafswm y grŵp penaethiaid. Fodd bynnag, gallai'r corff llywodraethu benderfynu bod amgylchiadau arbennig (a ddangosir drwy achos busnes) er mwyn caniatáu cyflog uwch hyd at uchafswm o 25% yn uwch nag uchafswm y grŵp penaethiaid. Byddai disgwyl i lywodraethwyr wahanu'r ffactorau dros dro a'r ffactorau parhaol. Mewn amgylchiadau eithriadol lle mae'r cyflog yn uwch na 25% uwchben uchafswm y grŵp penaethiaid, rhaid i'r Corff Llywodraethu geisio cyngor annibynnol allanol cyn darparu cytundeb o'r fath, sydd i'w amlinellu yn yr achos busnes.

Lle mae'r cyfrifoldeb yn barhaol caiff y lwfansau ychwanegol eu cydgrynhoi yn gyflog sylfaenol, ond os yw'n gyfrifoldeb dros dro caiff ei dalu fel lwfans ychwanegol ac ni fydd y cyflog yn cael ei warchod drwy ddiogelu.

Fel arfer bydd y Corff Llywodraethu yn penodi athrawon arweiniol newydd ar waelod yr ystod gyflog berthnasol.

Bydd y Corff Llywodraethu yn talu athrawon fel dirprwy benaethiaid neu benaethiaid cynorthwyol dim ond pan fydd y Corff Llywodraethu yn fodlon fod y rôl, yng nghyd-destun dyletswyddau athrawon, yn cynnwys cyfrifoldeb sylweddol nad oes disgwyl i holl athrawon dosbarth neu ddeiliaid CAD eu cyflawni, fel y diffinnir yn Nogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol.

Yn achos swydd dirprwy bennaeth, rhaid i'r Corff Llywodraethu hefyd fod yn fodlon bod y cyfrifoldeb sylweddol hwn yn cynnwys pwysau gwaith sydd tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir gan bennaeth cynorthwyol a gyflogir yn yr un ysgol, gan gynnwys cyfrifoldeb ar gyfer derbyn cyfrifoldebau llawn y pennaeth pan nad yw'r pennaeth yn bresennol.

Mae canllaw ychwanegol ar benderfynu Cyflog Arweinyddiaeth wedi ei gynnwys yn Atodiad 1, yn ogystal ag elfennau eraill Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2021.

Polisi Cyflog Athrawon Enghreifftiol

Datblygiad Cyflog ar gyfer Grŵp Arweinyddiaeth

Rhaid i'r corff perthnasol ystyried yn flynyddol a ddylent gynyddu cyflog aelodau o'r grŵp arweinyddiaeth ai peidio, sydd wedi cwblhau blwyddyn o gyflogaeth (26 wythnos) ers y penderfyniad cyflog diwethaf.

Rhaid i'r corff perthnasol benderfynu sut bydd datblygiad cyflog o fewn yr ystod gyflog berthnasol a osodwyd yn unol â pharagraff 9 Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2021 yn cael ei benderfynu, yn amodol ar y canlynol:

- Dylai Datblygiad Cyflog fod ar sail blynyddol o 1 Medi, gyda rhagdybiaeth o blaid datblygiad ac wedi'i weithredu'n awtomatig os nad yw unigolyn wedi cael gwybod fod gweithdrefnau galluogrwydd yn mynd rhagddynt o ran y flwyddyn honno.
- Gall y corff perthnasol ddyfarnu pwynt ychwanegol i unrhyw bennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol y mae eu perfformiad yn y flwyddyn ysgol flaenorol wedi bod yn ardderchog, yn enwedig o safbwynt amcanion y cytunwyd arnynt. Disgresiwn i ddyfarnu pwynt ychwanegol lle mae perfformiad wedi bod yn ardderchog yn enwedig o safbwynt amcanion y cytunwyd arnynt.
- Gellid gwneud penderfyniad i beidio dyfarnu datblygiad os yw'r pennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol yn destun gweithdrefnau galluogrwydd.
- Dylid ymdebygu pwyntiau cyflog presennol i bwynt cyfatebol ar raddfeydd priodol 2021 ym mharagraff 4. Dylid ymdebygu unrhyw bennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol nad yw eu cyflog yn cyfateb yn union â phwynt o'r fath, ar bwynt uchaf nesaf y raddfa.

Mae'r safonau proffesiynol sy'n berthnasol i Benaethiaid yng Nghymru yn cynnwys Safonau Athrawon wrth eu Gwaith a'r Safonau Arweinyddiaeth fel y rhestrir yn y safonau proffesiynol newydd ar gyfer dysgu ac arweinyddiaeth (Cymru) 2017 a rhaid ei ddarllen a'u defnyddio yn y cyd-destun.

Mae'r safonau proffesiynol sy'n berthnasol i Ddirprwy Benaethiaid a Phenaeithiaid Cynorthwyol yng Nghymru wedi eu rhestru yn y safonau proffesiynol newydd ar gyfer dysgu ac arweinyddiaeth (Cymru) 2018 a rhaid ei ddarllen a'u defnyddio yn y cyd-destun hynny.

Mae canllaw ychwanegol ar benderfynu Cyflog Arweinyddiaeth wedi ei gynnwys yn Atodiad 1, yn ogystal ag elfennau eraill Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2021.

Polisi Cyflog Athrawon Enghreifftiol

Rheoli Perfformiad

Mae Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2021 yn nodi nad yw cyflog yn gysylltiedig â Rheoli Perfformiad bellach, fodd bynnag mae Rheoli Perfformiad yn dal i chwarae rôl bwysig mewn Ysgolion, a dylid ei ddefnyddio wrth ystyried dyfarnu yr Uwch Raddfa Gyflog, pwyntiau ychwanegol ar gyfer perfformiad ardderchog o safbwynt Arweinyddiaeth neu addysgu ardderchog.

Athrawon Dosbarth ar y Brif Raddfa Gyflog

Bydd angen i athrawon dosbarth ar y Brif Raddfa Gyflog fodloni safonau proffesiynol Rheoli Perfformiad i Athrawon. Rhaid ystyried yn flynyddol a ddylid cynyddu cyflog athrawon dosbarth sydd wedi cwblhau blwyddyn o gyflogaeth (o leiaf 26 wythnos) ai peidio, ers y penderfyniad cyflog diwethaf. Rhaid i'r corff perthnasol benderfynu sut bydd datblygiad cyflog yn cael ei benderfynu, yn amodol ar y canlynol:

- Rhaid i'r corff perthnasol ddyfarnu i athrawon sydd ar bwyntiau graddfa M2 – M5 y Brif Raddfa Gyflog gynnydd o un pwynt yn dilyn cwblhau blwyddyn o gyflogaeth fel athrawon cymwysedig yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol, os nad yw'r athrawon wedi cael gwybod fod gweithdrefnau galluogrwydd yn mynd rhagddynt o ran y flwyddyn honno.
- Gall y corff perthnasol ddyfarnu pwynt ychwanegol i athrawon y mae eu perfformiad yn y flwyddyn ysgol flaenorol wedi bod yn ardderchog, yn enwedig o safbwynt addysgu mewn dosbarth.
- Dylai Datblygiad Cyflog ar y brif raddfa gyflog bum pwynt newydd fod ar sail blynyddol o 1 Medi, gyda rhagdybiaeth o blaid datblygiad ac wedi'i weithredu'n awtomatig os nad yw unigolyn wedi cael gwybod fod gweithdrefnau galluogrwydd yn mynd rhagddynt o ran y flwyddyn honno.
- Dylid dyrannu athrawon newydd eu penodi ac athrawon heb gymhwyso ar bwynt graddfa priodol ar eu graddfeydd cyflog ar gyfer 2021 fel a nodir ym mholisi cyflogau'r corff perthnasol.
- Gellid gwneud penderfyniad i beidio dyfarnu datblygiad os yw'r athrawon yn destun gweithdrefnau galluogrwydd.

Mae mwy o wybodaeth am ddatblygiad i'w gael ym Mharagraff 19 Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2021.

Polisi Cyflog Athrawon Enghreifftiol

Athrawon Dosbarth ar yr Uwch Raddfa Gyflog

Yn unol â darpariaethau Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2021 bydd angen i Athrawon Dosbarth ar yr uwch raddfa gyflog fodloni addysgu proffesiynol fel y diffinnir yn y safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth (Cymru) 2017. Bydd athrawon dosbarth yn derbyn yr Uwch Raddfa Gyflog pan fydd ceisiadau wedi'u hasesu gan y corff perthnasol, o ran a yw'r athrawon yn bodloni'r meini Prawf ym mharagraff 15.2 o'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol a'r rhai yn Atodiad 4. Pan fo athrawon yn destun Rheoliadau 2011, bydd y corff perthnasol yn rhoi sylw i'r asesiadau a'r argymhellion yn adroddiadau gwerthuso'r athrawon dan y rheoliadau hynny. Bydd datblygiad cyflog ar yr Uwch Raddfa Gyflog yn y rhan fwyaf o achosion bob dwy flynedd, yn unol â'r gofynion ym mharagraff 14 Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2021, oni bai bod gweithdrefnau galluogrwydd yn mynd rhagddynt o ran y cyfnod hwnnw.

Athrawon Ymarferwyr Arweiniol

Yn unol â darpariaeth Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol, bydd athrawon sy'n Ymarferwyr Arweiniol yn derbyn datblygiad cyflog ar eu graddfeydd cyflog yn dilyn pob adolygiad rheoli perfformiad / gwerthuso llwyddiannus. Bydd adolygiadau yn cael eu hystyried yn llwyddiannus oni bai fod pryderon sylweddol am safonau perfformiad wedi eu codi'n ysgrifenedig gyda'r athrawon yn ystod cylch rheoli perfformiad / gwerthuso blynyddol ac nad ydynt wedi mynd i'r afael yn ddigonol â nhw drwy gymorth a ddarparwyd gan yr ysgol erbyn canlyniad y broses honno.

Athrawon Dosbarth heb Gymhwyso

Yn unol â darpariaeth Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol. Bydd athrawon dosbarth heb gymhwyso yn derbyn datblygiad cyflog o un pwynt ar bwyntiau graddfa 1 – 6 datblygiad Graddfa Gyflog Athrawon Heb Gymhwyso yn dilyn cwblhau blwyddyn o gyflogaeth yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol, os nad yw'r athrawon wedi cael gwybod fod gweithdrefnau galluogrwydd yn mynd rhagddynt o ran y flwyddyn honno.

Athrawon Byr Rybudd / Cyflenwi a benodir gan Gyngor Sir Ddinbych

Wrth benderfynu ar gyflog cychwynnol ar gyfer athrawon byr rybudd / cyflenwi yn cychwyn eu swydd gyntaf fel athrawon dosbarth cymwysedig neu athrawon cyflenwi, bydd y Corff Llywodraethu yn talu'r athrawon ar y Brif Raddfa Gyflog yn unol â'r canllawiau yn y ddogfen hon.

Polisi Cyflog Athrawon Enghreifftiol

Bydd y Corff Llywodraethu hefyd yn ystyried dyrannu pwyntiau graddfa ychwanegol ar y sail uchod i athrawon eraill a benodwyd ar y Brif Raddfa neu'r Raddfa Uwch. Wrth benderfynu ar gyflog cychwynnol athrawon dosbarth sydd eisoes wedi gweithio mewn ysgol neu academi a gynhelir yng Nghymru a Lloegr, bydd y Corff Llywodraethu yn talu'r athrawon ar y Brif Raddfa Gyflog neu'r Uwch Raddfa Gyflog ar bwynt graddfa a fydd yn ystyried hawl cyflog blaenorol yr athro yn ogystal ag unrhyw ddatblygiad cyflog y byddent wedi ei dderbyn pe baent wedi aros yn eu swydd flaenorol.

Rhaid i'r corff perthnasol ddyfarnu i athrawon cyflenwi sydd ar bwyntiau graddfa M2 – M6 y Brif Raddfa Gyflog gynydd o un pwynt yn dilyn cwblhau blwyddyn o gyflogaeth (26 wythnos) fel athrawon cymwysedig yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol, os nad yw'r athrawon wedi cael gwybod fod gweithdrefnau galluogrwydd yn mynd rhagddynt o ran y flwyddyn honno. Cyfrifoldeb yr athrawon byr rybydd/cyflenwi yw codi a darparu'r dystiolaeth ofynnol i ddangos bod datblygiad yn berthnasol.

Symud i'r Uwch Raddfa Gyflog

Ceisiadau a Thystiolaeth

Gall athrawon cymwys wneud cais i gael eu talu ar yr Uwch Raddfa Gyflog ac mae'n rhaid asesu unrhyw gais o'r fath yn unol â'r polisi. Cyfrifoldeb yr athrawon yw penderfynu a ydynt yn dymuno gwneud cais i gael eu talu ar yr Uwch Raddfa Gyflog ai peidio.

Gellir gwneud ceisiadau unwaith y flwyddyn. Pan fydd athrawon am gael eu hasesu, dylent hysbysu eu hasesydd yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen gais (yn Atodiad 3) a ddylai gael ei gyflwyno gan yr athrawon i'r asesydd yn y cyfarfod rheoli perfformiad / gwerthuso. Bydd cais yr athrawon yn cael ei atodi at eu cynllun rheoli perfformiad / gwerthuso a'u datganiad adolygu.

Yr unig dystiolaeth fydd i'w defnyddio fydd yr hyn sydd ar gael drwy'r broses rheoli perfformiad / gwerthuso.

Os yw athrawon ar yr un pryd yn cael eu cyflogi mewn ysgol / ysgolion eraill, mae modd iddynt gyflwyno ceisiadau ar wahân os hoffent gael eu talu ar yr Uwch Raddfa Gyflog yn yr ysgol neu'r ysgolion hynny. Ni fydd yr ysgol hon wedi ei rhwymo gan unrhyw benderfyniad cyflog a wneir gan ysgol arall.

Yr Asesiad

Bydd cais gan athrawon cymwysedig yn llwyddiannus os yw'r Corff Llywodraethu yn fodlon:

Polisi Cyflog Athrawon Enghreifftiol

- bod yr athrawon yn gymwys ym mhob elfen o'r safonau perthnasol; a
- bod llwyddiannau a chyfraniad yr athrawon i'r ysgol yn sylweddol ac yn gynaliadwy.

Er dibenion y polisi cyflog hwn, bydd y Corff Llywodraethu yn fodlon bod athrawon wedi bodloni gofynion datblygu i'r Uwch Raddfa Gyflog pan fydd meini prawf yr Uwch Raddfa Gyflog (Atodiad 4) wedi'u bodloni fel y tystiolaethwyd gan ddau adolygiad rheoli perfformiad / gwerthuso olynol llwyddiannus.

Wrth wneud ei benderfyniad, bydd y Corff Llywodraethu yn rhoi sylw i'r ddau adolygiad rheoli perfformiad / gwerthuso diweddaraf. Bydd adolygiadau yn cael eu hystyried yn llwyddiannus oni bai fod pryderon sylweddol am safonau perfformiad wedi eu codi'n ysgrifenedig gyda'r athrawon yn ystod cylch rheoli perfformiad / gwerthuso blynyddol ac nad ydynt wedi mynd i'r afael yn ddigonol â nhw drwy gymorth a ddarparwyd gan yr ysgol erbyn canlyniad y broses honno.

Prosesau a Gweithdrefnau

Bydd yr asesiad yn cael ei gyflawni o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn y cais neu ganlyniad y broses rheoli perfformiad / gwerthuso, pa un bynnag sydd olaf. Os yn llwyddiannus, bydd ymgeiswyr yn symud i'r Uwch Raddfa Gyflog o'r 1 Medi blaenorol ac yn cael eu rhoi ar bwynt 1 y raddfa gyflog honno. Os yn aflwyddiannus, bydd adborth yn cael ei ddarparu gan y pennaeth cyn gynted â phosib ac o leiaf o fewn 5 diwrnod gwaith i'r penderfyniad, a bydd yn cynnwys y rhesymau ar gyfer y penderfyniad a bydd y trefniadau apelio ar gael i'r athrawon. Bydd unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad i beidio symud athrawon i'r Uwch Raddfa Gyflog yn cael eu clywed o dan drefniadau apelio cyffredinol yr ysgol.

Athrawon Rhan Amser

Bydd athrawon a gyflogir ar sail parhaol yn yr ysgol ond sy'n gweithio llai na wythnos weithio lawn yn cael eu nodi fel athrawon rhan amser. Bydd y Corff Llywodraethu yn rhoi datganiad ysgrifenedig iddynt yn manylu goblygiadau amser gwaith, a'r system safonol a ddefnyddir i benderfynu ar eu cyflog, yn amodol ar ddarpariaethau trefniadau amser gweithio a chyflog statudol a drwy gymharu ag amserlen wythnos addysgu yr ysgol ar gyfer athro llawn amser mewn swydd gyfwerth. Bydd unrhyw oriau ychwanegol a weithir drwy gytundeb o dro i dro yn cael eu talu ar yr un raddfa os yw'r un rôl yn cael ei chyflawni.

Polisi Cyflog Athrawon Enghreifftiol

Athrawon Byr Rybudd / Cyflenwi

Bydd athrawon a gyflogir o ddydd i ddydd neu ar sail byr rybudd yn cael eu talu'n ddyddiol, a'r cyflog wedi ei gyfrifo ar y dybiaeth fod blwyddyn waith lawn yn cynnwys 194 diwrnod; bydd cyfnodau o gyflogaeth am lai na diwrnod yn cael eu cyfrifo pro-rata.

Bydd athrawon sydd wedi eu cyflogi i addysgu dros ddiwrnod cyfan disgyblion yn derbyn cyfradd ddyddiol o 1/194 o'r cyflog blynyddol y byddent yn ei dderbyn pe baent yn gwneud y gwaith ar gcontract rheolaidd. Bydd athrawon sydd yn gweithio llai na diwrnod llawn yn cael eu talu fesul awr a bydd eu cyflog nhw hefyd yn cael ei gyfrifo fel swm blynyddol a fydd wedyn yn cael ei rannu â 194 a'i rannu eto wedyn gan gyfran diwrnod llawn y disgybl y maent yn eu haddysgu i gyrraedd cyfradd fesul awr sy'n unol â Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol a chytundebau lleol.

Cynnydd Cyflog oherwydd Newidiadau i'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol

Bydd yr ysgol yn cymhwyso unrhyw ddyfarniadau cyflog a gytunwyd yn genedlaethol pan fyddant yn digwydd, ac yn sicrhau eu bod yn cymhwyso i bob un o'r pwyntiau cyflog dan gyfarwyddyd y cyngor.

Lwfansau a Thaliadau yn ôl disgrisiwn

Taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu

Mae'r Corff Llywodraethu yn talu Taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu 1 a 2 i athrawon fel y nodir yn y strwythur staffio atodol, yn unol â'r ystodau cyflog a nodir yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol fel y'i diweddarir o bryd i bryd a bydd y lefelau a'r gwerthoedd canlynol yn berthnasol:

CAD1	
1a	£8,437
1b	£10,382
1c	£12,326
1d	£14,276

Polisi Cyflog Athrawon Enghreifftiol

CAD2	
2a	£2,924
2b	£4,868
2c	£7,140

Mae'r meini prawf ar gyfer dyfarnu taliadau CAD1 a 2 fel a ganlyn:

Cyn dyfarnu unrhyw daliadau CAD1 neu 2, rhaid i'r Corff Llywodraethu fod yn fodlon fod dyletswyddau'r athrawon yn cynnwys cyfrifoldeb sylweddol na ddisgwylir gan yr holl athrawon dosbarth, a'u bod:

- yn canolbwyntio ar addysgu a dysgu;
- angen ymarfer sgiliau a barn proffesiynol athro;
- angen i'r athrawon arwain, rheoli, a datblygu pwnc neu faes cwricwlwm; neu arwain a rheoli datblygiad disgyblion ar draws y cwricwlwm;
- yn cael effaith ar gynnydd addysgol disgyblion heblaw am ddsbarthiadau neu grwpiau o ddisgyblion penodol yr athrawon; ac
- yn cynnwys arwain, datblygu a gwella arferion addysgu staff eraill.

Yn ogystal, cyn dyfarnu taliad CAD1, rhaid i'r Corff Llywodraethu fod yn fodlon fod y cyfrifoldeb sylweddol y cyfeirir ato uchod yn cynnwys cyfrifoldeb rheoli atebol dros nifer sylweddol o bobl.

Yn unol â darpariaeth Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol ni fydd angen i athrawon gyflawni cyfrifoldebau ychwanegol parhaol heb daliad CAD 1 neu CAD2 parhaol priodol. Gall y corff perthnasol ddyfarnu trydydd CAD (CAD3) tymor penodol i athrawon dosbarth ar gyfer prosiectau gwella ysgol o fewn tymor penodol, neu gyfrifoldebau allanol untro. Ni all gwerth blynyddol CAD3 unigol fod yn llai na £581 nac yn fwy na £2,833. Rhaid sefydlu hyd y tymor penodol ar y dechrau a dylid gwneud y taliad yn fisol am hyd y tymor penodol. Er na all athrawon ddal CAD1 a CAD2 ar yr un pryd, gall athrawon sydd yn derbyn CAD1 neu CAD2 hefyd ddal CAD3 ar yr un pryd.

Cyn gwneud taliad CAD3, rhaid i'r Corff Llywodraethu fod yn fodlon bod y cyfrifoldebau yn cyfateb â meini prawf a, b, a d uchod; eu bod yn cael eu dyfarnu am brosiectau gwella ysgol cyfnod penodol neu

Polisi Cyflog Athrawon Enghreifftiol

gyfrifoldebau allanol; ac nad yw'r cyfrifoldebau yn barhaol neu'n ofyniad strwythurol y dylid eu gwobrwyo fel arall drwy daliad CAD parhaol.

Os yw'r Corff Llywodraethu am wneud taliadau CAD3, bydd y cyfrifoldebau arfaethedig, y lefel o daliad (o fewn y raddfa gyhoeddedig o £581 -£2,833) a hyd y taliad yn cael ei nodi'n glir ac yn amodol ar weithdrefnau ymgynghori arferol.

Ni fydd taliadau CAD3 yn cael eu defnyddio i ddisodli na chyfyngu datblygiad cyflog athrawon yn y Brif Raddfa, yr Uwch Raddfa na'r Raddfa Ymarferwyr Arweiniol. Lwfansau Anghenion Addysgol Arbennig.

Bydd y Corff Llywodraethu yn dyfarnu lwfansau AAA yn unol â'r meini prawf a'r darpariaethau a nodir yn Nogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2021.

Gwerth y lwfansau AAA i'w talu yn yr ysgol fydd: Ystod a gyhoeddwyd rhwng £2,310 - £4,558.

Lwfansau Gweithredu Dros Dro

Pan fydd yn rhaid i athrawon weithredu fel pennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol am gyfnod o fwy na pedair wythnos yn olynol, byddant yn derbyn lwfans ychwanegol fel bod y cyfanswm cyflog a dderbynnir yn gyfwerth â hynny o fewn graddfa gyflog deiliad y swydd arferol.

Bydd taliadau yn cael eu hôl ddyddio i'r diwrnod y dechreuodd yr athrawon ymgymryd â'r dyletswyddau hynny. Ni fydd unrhyw bwysau uniongyrchol nac anuniongyrchol yn cael ei roi ar athrawon i dderbyn y rôl, sy'n wirfoddol.

Taliadau eraill

Datblygiad proffesiynol parhaus y tu allan i amser penodol; gweithgareddau hyfforddiant cychwynnol athrawon a gweithgareddau dysgu y tu allan i'r ysgol a chyfrifoldebau a gweithgareddau ychwanegol oherwydd, neu o ran, darparu gwasanaethau sy'n ymwneud â chodi safonau addysgol ar gyfer un neu fwy o ysgolion ychwanegol.

Yn unol â darpariaeth Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol bydd y Corff Llywodraethu yn gwneud taliadau ychwanegol i athrawon sydd yn cytuno i gael cyfarwyddyd (gan gynnwys y pennaeth) i gyflawni gweithgareddau o'r fath.

Polisi Cyflog Athrawon Enghreifftiol

Mae'r Corff Llywodraethu yn cydnabod bod gweithgareddau o'r fath yn gwbl wirfoddol ac y bydd ymrwymadau rhai athrawon yn eu gwneud yn anodd iddynt gyflawni'r fath weithgareddau. Lle na all athrawon fynychu Datblygiad Proffesiynol Parhaus a drefnwyd y tu allan i'r diwrnod ysgol, bydd yr ysgol yn gwneud eu gorau i gynnig trefniadau hyfforddiant amgen addas.

Cymhellion a buddion recriwtio a chadw

Pan fydd y Corff Llywodraethu eisiau gwneud taliadau recriwtio a chadw i athrawon, bydd lefel, hyd a meini prawf ar gyfer

taliadau o'r fath yn cael eu penderfynu gan y pwyllgor cyflogau fel y nodir yn Nogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol. Bydd taliadau o'r fath yn cael eu hadolygu'n flynyddol yn amodol ar drefniadau ymgynghori arferol.

Dyletswyddau preswyl

Bydd y Corff Llywodraethu yn gwneud taliadau o safbwynt dyletswyddau preswyl yn unol â chytundeb cenedlaethol Cydgyngor Cenedlaethol Athrawon mewn Sefydliadau Preswyl.

Honoraria

Ni fydd y Corff Llywodraethu yn talu unrhyw honoraria i unrhyw aelod o'r staff addysgu am gyflawni eu dyletswyddau proffesiynol fel

athrawon, gan gydnabod nad oes darpariaeth o fewn Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2021 ar gyfer taliadau bonws na honoraria mewn unrhyw amgylchiadau.

Diogelu

Bydd y Corff Llywodraethu yn gweithredu trefniadau diogelu cyflog yn unol â darpariaethau Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2021.

Apeliadau

Nodir trefniadau ar gyfer ystyried apeliadau ar benderfyniadau cyflog yn Atodiad 2 y polisi hwn.

Polisi Cyflog Athrawon Enghreifftiol

Monitro Effaith y Polisi

Yn flynyddol, bydd y Corff Llywodraethu yn monitro canlyniad ac effaith y polisi hwn ar y cyd â chynrychiolydd undeb ac yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb.